# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 14.07.21 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Kevin Goodchild (Cadeirydd), Keith Carroll, Huw Davies, Geraint Edwards, Geraint Micah, John Griffiths, Jenny Warne, Louise Hughes (Cynghorydd Sirol), 5 aelod o'r gymuned, Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** David Griffiths, Ian Williams, Dylan Thomas.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 09.06.21 fel rhai cywir.
   **Cynnig** – Keith Carroll **Eilio –** Huw Davies **Arwyddwyd –** Kevin Goodchild.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (09.06.21):**

   a) **Parcio rhwystredig ar y ffordd ger y Cae Chwarae yn Llwyngwril:**
   Uwch Swyddog y tîm parcio wedi cynnig cwrdd ag aelodau o'r Cyngor Cymuned ar y safle ➞ 15.07.21.

   b) **Hysbysfwrdd yn "lay-by" Pont y Cletwr:**
   Cyngor Gwynedd wedi cynnig pris (£287.28) i ail osod yr hysbysfwrdd ar y safle
   **Penderfyniad** ➞ derbyn y pris yma mewn egwyddor, a gofyn am gyfarfod safle gyda swyddog Cyngor Gwynedd.

   c) **Rhwystrau Diogelwch ar y ffordd rhwng Llwyngwril a Friog:**
   - Adroddiad wedi ei dderbyn gan Network Rail gyda'i sylwadau diweddaraf……..
   - Adroddiad wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â'i sefyllfa nhw yn y mater yma……
     Cadarnhau hefyd fod cyfarfod safle wedi ei drefnu hefo CG a NWR i drafod y sefyllfa diogelwch.

5. **Gohebiaeth:**

   a) **Llwybr y Crynwyr:**
   Aelodau o'r gymuned wedi gofyn i siarad yn y cyfarfod ynglŷn â phryderon sydd ganddynt wedi eu codi ers i'r Cyngor Cymuned drafod cynigion i gael Cyngor Gwynedd i fabwysiadu Llwybr y Crynwyr yn "lwybr cyhoeddus". Trafodwyd llawer pwynt oedd yn berthnasol i'r cais ond hefyd ceisiodd y Cyngor Cymuned eu cysuro na fyddai dim yn newid ynglŷn â'r hawliau sydd ganddynt mewn lle yn barod, ac sydd ar eu gweithredoedd hwy eisoes.

   b) **Llwybr i'r traeth ger Sunbeach, Llwyngwril:**
   Yn dilyn ymlaen o ymholiad y Cyngor Cymuned ym mis Mai 2021, derbyniwyd adroddiad gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â'r llwybr yma. 'Roeddent yn gofyn am unrhyw gofnodion oedd gan y Cyngor Cymuned a allai helpu i sefydlu hanes y llwybr ➝ os oedd yn lwybr tarmac neu'n drac drwy'r caeau?
   **Penderfyniad** ➞ anfon copi o lun oedd gan y Cyngor Cymuned yn ei meddiant i Gyngor Gwynedd.

   c) **Llinellau Melyn Arfaethedig ger Maes y Crynwyr, Llwyngwril:**
   Cadarnhad wedi ei dderbyn gan Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd, eu bod wedi derbyn ambell wrthwynebiad ynglŷn â'r cynnig yma, a ni fyddent yn mynd ymlaen gyda'r cynnig yma am y tro.

d) **Menter lleihau cyflymder drwy'r pentref i ddiogelu defnyddwyr y ffordd A493:**
Daeth aelod o'r gymuned ymlaen yn y cyfarfod i ofyn a chai ddarllen datganiad yr oedd wedi paratoi ynglŷn â sefyllfa diogelwch/cyflymder gormodol/parcio ar ochr y ffordd ger croesffordd Y Crynwyr yn Llwyngwril. Eglurodd fod Cyngor Gwynedd wedi cynnig rhoi mesuriadau "tawelu traffig" mewn lle ar y ffordd ger y safle yma, a byddai yn falch os byddai'r Cyngor Cymuned yn cefnogi'r cynnig yma drwy gysylltu gydag Adran Draffig, CG.

**Penderfyniad** ➡ cysylltu ag Uwch Beiriannydd Traffig, Cyngor Gwynedd, a gofyn iddo gadarnhau unrhyw gynlluniau sydd gan Gyngor Gwynedd ar y gweill i Llwyngwril, ac os oes rhywbeth y gall y Cyngor Cymuned ei helpu hefo? Hefyd, gadael i Gyngor Gwynedd wybod fod y Cyngor Cymuned mewn cysylltiad â Swyddogion Adran Parcio a Gwaith Stryd Cyngor Gwynedd eisoes, ynglyn a materion tebyg yn y pentref.

e) **Cyngor Gwynedd:**
- Rhaglen Waith – Gorffennaf 2021 – wedi ei derbyn.
- Raymond Harvey wedi ymddeol. Manylion am seddi gwag i'w hanfon i etholiad@gwynedd.llyw.cymru.

f) **Ambiwlans Awyr Cymru:** llythyr wedi ei dderbyn yn diolch am y rhodd o £250.00 gan y Cyngor Cymuned.

g) **Japanese Knotweed:** Ymholiad gan aelod o'r gymuned ynglŷn â'r tyfiant ar ochr y llwybr ger y Bont Goch
**Penderfyniad** ➡ gofyn iddynt gysylltu â Chyngor Gwynedd a Grŵp Amgylchedd Llwyngwril.

h) **ROSPA:** Adroddiad Blynyddol ar gyfer y Cae Chwarae wedi ei dderbyn – ni chodwyd unrhyw faterion brys.

6. **Materion Cynllunio:**

a) **Cais cynllunio: C21/0534/00/CR:** (gan Gyngor Gwynedd) Viaduct Ub40 Bermo
Gosod paneli "fibre reinforced plastic" ar ochr mynediad gweithgaredd y bont
**Penderfyniad** ➡ Dim gwrthwynebiad/sylwadau ond cyfeirio'r cais i Gyngor Cymuned Arthog.

b) **NP5/69/393A – Wendon, Llwyngwril** ➡ Ffurfio mynediad newydd i gerbydau yn y wal derfyn
**Penderfyniad** ➡ Dim gwrthwynebiad na sylwadau i'w cyflwyno i Barc Cenedlaethol Eryri.

c) **Parc Gwyliau Llwyn Du, Llwyngwril:**
Cadarnhad wedi ei dderbyn gan Barc Cenedlaethol Eryri eu bod mewn cysylltiad â pherchennog y safle a bod yr amodau Cynllunio mewn cwestiwn wedi eu pwyntio allan iddynt, ond dydy'r Parc ddim wedi derbyn ateb swyddogol ganddynt hyd yma.

7. **Adroddiad Ariannol**: Adolygiad ariannol wedi ei wneud.
Derbyniwyd Adroddiad Mis Mehefin 2021 yn gywir.
**Cynnig –** Huw Davies **Eilio –** Geraint Micah **Arwyddwyd –** Kevin Goodchild.

a) Taliad o £17.08 wedi ei dderbyn gan Scottish Power.
b) Anfoneb gan ROSPA am archwiliad diogelwch blynyddol i'r Cae Chwarae, Llwyngwril = £94.80.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Derbyniwyd adroddiad Louise Hughes.

**10. Unrhyw Fater Arall:**

a) **Ceg yr afon Gwril** - Huw Davies yn adrodd fod dim gwrthwynebiad wedi ei dderbyn i'r cais ynglŷn â'r gwaith arfaethedig i gael ei wneud ar y safle yma.

b) **Goleuadau Nadolig** - Geraint Edwards wedi cynnig archebu goleuadau yn barod i'r coed Nadolig!

c) **Swydd y Clerc –** Dau gais wedi eu derbyn hyd yma ➞ trafod y ceisiadau yn y cyfarfod nesaf.

d) **Cyfarfod nesaf** - penderfynwyd cael cyfarfod mis Awst i drafod ceisiadau am swydd y clerc ac i orffen trafod y cais i'w gyflwyno i Gyngor Gwynedd i fabwysiadu Llwybr y Crynwyr yn "llwybr cyhoeddus".

e) **Offer i'r Cae Chwarae** - derbyniwyd ymholiadau gan aelodau o'r gymuned yn gofyn a oedd modd cael offer ymarfer corff i oedolion i'w gosod yn y Cae Chwarae yn Llwyngwril
**Penderfyniad** ➞ gwneud ymholiadau am y costau erbyn y cyfarfod nesaf ac os oes unrhyw grantiau ar gael ?

f) **Gordyfiant ger croesfan trên Llwybr y Perthi -** cwynion wedi ei derbyn ynglŷn â'r gordyfiant
**Penderfyniad** ➞ cysylltu â Network Rail i'w gwneud yn ymwybodol o'r sefyllfa.

g) **Yr Hen Fynwent yn Llwyngwril** - cwynion wedi eu derbyn ynglŷn â chyflwr yr hen fynwent
➞ cafwyd cadarnhad y bydd y gwaith cynnal a chadw yn cael eu wneud yn fuan.

h) **Cof Golofn** ➞ cafwyd gadarnhad y bydd y gwaith cynnal a chadw yn cael eu wneud yn fuan.

i) **Gordyfiant chwyn** - cwynion wedi ei derbyn ynglŷn â chwyn ar y palmentydd drwy Llwyngwril, ag ar ochrau y ffordd o Llwyngwril i Bont y Cletwr ag o Llwyngwril i Roslefain, yn enwedig o gwmpas Cae Du
**Penderfyniad** ➞ cysylltu â Chyngor Gwynedd i ddod a'r mater i'w sylw.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher – 11.08.21 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd ………………………………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………**